

Myfyrdod ar Sul y Blodau Gan D. Eirian Rees

“Beth am ganolbwyntio, a hithau’n Sul y Blodau, yn eu tro ar dorf y diwrnod hwnnw, ar yr Iesu ac wedyn arnom ni yn y Tabernacl, Efail Isaf.

Y Dorf...

Gyda’r Iesu yn ymyl Jerwsalem roedd criw o bobl o amgylch yr Iesu yn taenu cangau palmwydd ar y ffordd gan weiddi “Hosanna!”. Pwy oedden nhw?

A oedd pentre cyfan wedi troi mâs yn gyffrous i gyfarch yr Iesu, neu ife dim ond y criw oedd yn teithio gydag e?

Os oedd cynnwrf yn y pentrefi, efallai taw’r neges i ni yw, i ni beidio ag ymddiried yn “y dorf” oherwydd ma’ nhw mor gyfnewidiol â’r gwynt. Os taw’r criw dilynwyr agosâ sydd yma, efallai taw’r neges yw inni beidio gorbriso gwerth brwdfrydedd emosiynol, oherwydd bod bywyd hefyd yn galw am ewyllys gadarn.

Yr Iesu...

Mae’r Efengylau’n cyflwyno i ni’r argraff adawodd yr Iesu ar ryw bobl. Gwelwn mai asyn yn hytrach na march sydd gennym yn y stori, ac y mae hynny yn cyd-fynd â’r dystiolaeth arall sydd gennym amdano. Roedd Iesu’n agored i bersonau pwy bynnag oeddent, o’r pwysigion oedd wedi eu caledu gan rym, cyfoeth a chrefydd, reit hyd at dlodion gwrthodedig. Roedd yn agored i wragedd a dynion, cenedl-ddynion blaengar a’r esgymun. Roedd yn dwyn iechyd i bob sefyllfa gyda’i drugaredd cynnes a’i gariad heb ffiniau.

Ni, aelodau’r Tabernacl...

Mae’r Tabernacl yn bodoli i’n helpu ni i anrhydeddu’r Iesu gyda’n bywydau. Mae adeiladau’r capel yn gant a hanner mlwydd oed eleni ac mae’r dorf sy’n casglu yma nawr yn fwy niferus nag erioed. Hefyd, fel y mae’n digwydd, mae’n union hanner can mlynedd ers i ni fel teulu symud yma i fyw. Fel aeth amser heibio, daeth un teulu ar ôl y llall i ymuno gyda ni, a gyda’n gilydd rydym wedi’n bendithio’n fawr. Ond, cwestiwn sydd bob amser yn hongian uwchlaw’n pennau fel eglwys yw: ydyn ni’n anrhydeddu’r Iesu?

Yr her i ni yw bod yn gristnogol yn hytrach na chrefyddol, ac nid bod yn barchus a beirniadol, ond yn hael a charedig. Ydyn ni’n adlewyrchu’r prydferthwch cynnes hwnnw sy’n nodweddu Iesu?

Mae trwch yr aelodau’n ffodus am eu bod yn cyflawni swyddi sy’n cyfrannu’n drwm i les cymdeithas. Ond, gallwn ychwanegu at hyn wrth ddweud ein bod hefyd am gyfrannu gyda’n gilydd i fywyd yr ardal a thu hwnt. Ein braint yw ein bod wedi gallu sicrhau miloedd o bunnoedd at waith Cymorth Cristnogol, apêl arbennig yr enwad i Madagascar, y llifogydd lleol, y banc bwyd cyfagos ynghyd a’n rhaglen i fwydo plant amddifad yn Lesotho; yn ychwanegol cyfrannwyd cannoedd o bunnau i ysgol arbennig leol, gofalwyr ifanc y sir, diogelwch i ferched ac ar ben hyn mae nwyddau o bob math wedi mynd i Syria, Adre, Cwtch ac ati. Credaf nad brwdfrydedd gwyllt sydd wedi bod tu cefn i hyn, ond dyma’r ffordd ry’ ni yn y Tabernacl yn ymateb i’r Iesu.

Canlyniad byw'n geidwadol, parchus a beirniadol yw bod yn gaeth mewn dŵr llonydd, sy'n ddŵr marw. Canlyniad dilyn Iesu yw bywyd pwrpasol a byrlymus sydd, ar waetha pob consyrn poenus, yn ddrws i foddhad dwfn.

Hosanna.